OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 746 (Cy.101)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Partneriaeth Cymru (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Mawrth 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *9 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 72(5)(e) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Yn unol ag adran 72(6) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chyngor Partneriaeth Cymru(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Partneriaeth Cymru (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ebrill 2012.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Byrddau Iechyd Lleol" ("*Local Health Boards*") yw'r Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**3**); ac

ystyr "Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service Trusts*") yw'r Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**4**).

(**1**) 2006 p.32.

(**2**) Mae cyfeiriadau at "Cyngor Partneriaeth Cymru" yn cyfeirio at y corff a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru ac sy'n cael ei gynnal ganddynt o dan adran 72(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) 2006 p.42. *Gweler* Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009, O.S. 2009/778 (Cy. 66). Diwygiodd y Gorchymyn hwn yr Atodlen i Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003, O.S. 2003/148 (Cy.18).

(**4**) *Gweler* Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009, O.S. 2009/2058 (Cy.177), Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993, O.S. 1993/2838, a

**Pennu awdurdodau**

**3.** Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol wedi eu pennu'n awdurdodau lleol at ddibenion adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau,
un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2012

ddiwygiwyd gan O.S. 1999/826, O.S. 2002/442 (Cy.57), O.S. 2002/2199 (Cy.219), O.S. 2009/2059 (Cy.178) a Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998, O.S. 1998/678, a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/201 (Cy.26).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn awdurdodau lleol at ddibenion adran 72(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Effaith hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i benodi aelodau o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn aelodau o Gyngor Partneriaeth Cymru, a sefydlwyd o dan adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn erthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd hi'n anghenrheidiol i wneud asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.